BALCHDER BRO
CHI SY'N ARWAIN – GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

Bydd cyfarfod o'r Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Rhondda Fach yn cael ei gynnal ar
Dydd Iau, 12fed Tachwedd, 2026 am 6.00 pm
Neuadd Morlais, Glynrhedynog, CF43 4PS

Dolen gyswllt: Hannah Jones – busnesycyngor@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. PENODI CADEIRYDD DROS DRO

Penodi Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Rhondda Fach.

3. CYLCH GORCHWYL

Cytuno ar Gylch Gorchwyl drafft Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Rhondda Fach.

(Tudalennau 3 - 14)

Tudalen wag

BALCHDER BRO
CHI SY'N ARWAIN – GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Rhondda Fach
Cylch Gorchwyl - Drafft

1. Diben

1.1 Diben y ddogfen yma yw amlinellu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Rhondda Fach.

1.2 Mae'r trefniadau yma'n adlewyrchu gofynion y Bwrdd Cymdogaeth fel y nodir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG).

1.3 Mae Cod Ymddygiad y Bwrdd Cymdogaeth yn ddogfen ar wahân.

2. Cefndir

2.1 Mae Rhaglen Balchder Bro wedi'i hariannu gan Lywodraeth y DU, ac mae'n targedu rhai o'r cymdogaethau mwyaf anghenus yn y DU. Mae'n rhoi hyd at £20 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf i gymunedau reoli a'i wario ar brosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cymdogaethau. Bwriad y cyllid hirdymor yma yw cefnogi cymunedau i lunio'u bro a bydd pobl leol ar Fyrddau Cymdogaeth yn penderfynu sut i fuddsoddi'r cyllid, gyda chefnogaeth Aelod Seneddol a'r awdurdod lleol.

2.2 Yn ei hanfod, mae Rhaglen Balchder Bro yn bartneriaeth rhwng y Bwrdd Cymdogaeth, llywodraeth leol ac Aelodau Seneddol lleol, gyda chefnogaeth y llywodraeth ganolog. Er mwyn cyflawni'r effaith fwyaf, mae gofyn i Fyrddau ganolbwyntio ar ddyrannu cyllid a chanolbwyntio ymyriadau ar y cymunedau mwyaf anghenus o fewn eu ffiniau.

3. Statws Cyfreithiol

3.1 Dydy'r Bwrdd ddim yn gorff corfforaethol nac yn endid cyfreithiol.

3.2 Nid y Bwrdd yw'r Corff Atebol ar gyfer y Rhaglen Balchder Bro. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithredu fel y Corff Atebol, gan gadw cyfrifoldeb am dderbyn, gweinyddu, rheoli a monitro holl gyllid y rhaglen, ac am sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, ariannol, llywodraethu ac archwilio perthnasol.

3.3 Y Bwrdd yw'r prif fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch y rhaglen a arweinir gan y gymuned, gan gynnwys cytuno ar flaenoriaethau lleol, datblygu'r Cynllun Balchder Bro a dewis ymyriadau.

DRAFT

3.4 Mae'r Bwrdd yn gweithredu yn ei rinwedd ei hun wrth gyflawni ei rôl o dan y Rhaglen Balchder Bro. Fodd bynnag, gan nad yw'r Bwrdd yn endid cyfreithiol, rhaid i unrhyw benderfyniad sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bwerau cyfreithiol gael eu defnyddio, ymrwymo neu dalu cyllid, neu ymrwymo i gontract, cytundeb grant neu drefniant cyfreithiol rwymol arall, gael ei weithredu drwy'r Cyngor fel y Corff Atebol.

3.5 Wrth weithredu penderfyniadau'r Bwrdd, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol a'r gofynion cyfreithiol, ariannol, llywodraethu a sicrwydd perthnasol, gan gynnwys caffael, rheoli cymorthdaliadau, cydraddoldebau a rheoli arian cyhoeddus yn briodol.

3.6 Pan fydd y Cyngor o'r farn nad oes modd gweithredu penderfyniad y Bwrdd yn gyfreithlon neu wrth gydymffurfio, bydd yn egluro'r rhesymau i'r Bwrdd ac yn gweithio gyda'r Bwrdd i nodi opsiwn priodol arall lle bynnag y bo modd.

4. Aelodaeth

4.1 Rhaid i Fyrddau Cymdogaeth gynnwys o leiaf wyth aelod, er mwyn sicrhau ystod eang o leisiau a safbwyntiau.

4.2 Bydd pob Bwrdd Cymdogaeth yn cael ei arwain gan Gadeirydd annibynnol wedi'i benodi a'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol a'r Aelod Seneddol lleol. Dylai'r Cadeirydd fod yn hyrwyddwr dros y fro a darparu arweinyddiaeth i'r Bwrdd, gan sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan y gymuned ac wedi'i wreiddio yn yr ardal leol.

4.3 Yn ôl disgresiwn y Bwrdd, mae modd penodi Is-gadeirydd i gefnogi'r Cadeirydd.

4.4 Dylai'r rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd, sef o leiaf 51%, fyw neu weithio o fewn ffin y gymdogaeth y cytunwyd arni. Dylai'r aelodaeth adlewyrchu'n fras ystod ac amrywiaeth y bobl sy'n byw yn yr ardal.

4.5 Rhaid i'r Bwrdd gynnwys y canlynol:

- yr Aelod Seneddol perthnasol (gall cynrychiolydd seneddol enwebedig fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a phleidleisio ar faterion ar ran y person yma);
- O leiaf un Cynghorydd ward;
- Cadeirydd annibynnol.

4.6 Mae gan bob aelod o'r Bwrdd hawl gyfartal i bleidleisio, yn amodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau.

4.7 Dim ond lle caniateir hyn gan y Cylch Gorchwyl yma y caiff cynrychiolydd aelod o'r Bwrdd fynychu. Oni bai ei fod wedi'i benodi'n ffurfiol yn ddirprwy pleidleisio, bydd y person hwnnw'n mynychu fel arsylwr a fydd ddim yn pleidleisio.

DRAFT

4.8 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu cymorth ysgrifenyddol a gall swyddogion y Cyngor fynychu cyfarfodydd fel ymgynghorwyr neu arsylwyr ond fyddan nhw ddim yn aelodau o'r Bwrdd a fyddan nhw ddim yn pleidleisio.

4.9 Gyda chytundeb y Cadeirydd, mae modd gwahodd ymgynghorwyr, partneriaid cyflawni neu bartïon allanol eraill i gyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol. Fyddan nhw ddim yn aelodau o'r Bwrdd a fyddan nhw ddim yn pleidleisio.

5. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

5.1 Rôl Bwrdd Cymdogaeth Rhondda Fach yw:

- Datblygu a chytuno, gyda'r gymuned leol, ar Gynllun Balchder Bro ar gyfer Rhondda Fach sy'n cynnwys y weledigaeth 10 mlynedd a'r cynllun buddsoddi pedair blynedd;
- Llunio a chytuno ar raglen ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned er mwyn 'profi a datblygu' prosiectau/rhaglenni blaenoriaeth;
- Nodi cyfleoedd ar gyfer cyllid cyfatebol a manteisio ar fuddsoddiadau dyngarol sy'n cefnogi cyflawni'r Cynllun Balchder Bro.
- Monitro'r cynnydd, y cerrig milltir, y gyllideb, y risgiau a'r problemau wrth gyflawni'r Cynllun Buddsoddi;
- Gweithio'n agos gyda phobl leol i ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion, busnesau a sefydliadau lleol wrth gyflawni'r Cynllun Buddsoddi;
- Sicrhau amrywiaeth yn ei waith ymgysylltu â chymunedau lleol, rhanddeiliaid a busnesau;
- Dathlu cyflawniadau'r buddsoddiadau a chytuno ar brotocol cyfathrebu i sicrhau dull cyson a chydlynol.
- Adolygu a chymeradwyo gwybodaeth sy'n ymwneud â gwaith y Bwrdd i'w chyflwyno i'r MHCLG, gyda ffurflenni monitro ffurfiol yn cael eu cyflwyno gan y Cyngor fel y Corff Atebol.
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan waith ymgysylltu ystyrlon â'r gymuned a'u bod nhw'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol.
- Cynnal goruchwyliaeth o risgiau, darpariaeth, gwariant a chanlyniadau'r rhaglen.
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac yn unol ag Egwyddorion Nolan a Chod Ymddygiad y Bwrdd.

5.2 Rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw:

- Bod yn Gorff Atebol ar gyfer ariannu a gweithredu cynlluniau;
- Darparu swyddogaeth ysgrifenyddol i'r Bwrdd;
- Bod yn brif bwynt cyswllt â MHCLG;

DRAFT

- Cydlynu gwaith cyflwyno adroddiadau monitro a chynnydd sy'n ofynnol gan MHCLG;
- Arwain y gwaith paratoi a chyflwyno adroddiadau cyflawniad y gofynnir amdanyn nhw gan MHCLG;
- Darparu neu drefnu cyngor cyfreithiol, ariannol, caffael, rheoli cymorthdaliadau, cydraddoldeb, llywodraethu a sicrwydd yn ôl yr angen;
- Rhoi penderfyniadau'r Bwrdd ar waith lle y mae modd eu gweithredu'n gyfreithlon ac wrth gydymffurfio;
- Cynnal cofnodion priodol, gan gynnwys y gofrestr buddiannau a'r cofnod penderfyniadau.

6. Rolau Gwag ar y Bwrdd

6.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fydd yn arwain penodiad y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd, ar ôl ymgynghori â'r Aelod Seneddol lleol a Chadeirydd y Bwrdd.

Y Cadeirydd

6.2 Os bydd rôl y Cadeirydd yn wag, cynhelir proses recriwtio agored a thryloyw. Gall aelodau cymwys presennol y Bwrdd wneud cais. Bydd Panel Penodiadau Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Rhondda Cynon Taf, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor a'r Aelod Seneddol lleol, yn ystyried mynegiannau o ddiddordeb. Rhaid i'r Cyngor a'r Aelod Seneddol lleol gytuno ar y penodiad.

6.3 Ddylai'r Cadeirydd ddim bod mewn sefyllfa i gael budd ariannol personol neu sefydliadol uniongyrchol o gyllid Balchder Bro nac ymwneud yn sylweddol â chais am gyllid yn ystod ei gyfnod yn y rôl. Dydy hyn ddim yn atal y Cadeirydd rhag elwa fel trigolyn neu aelod o'r gymuned ehangach ar welliannau a gyflawnir drwy'r Rhaglen.

6.4 Rhaid i'r Cadeirydd fod yn annibynnol a rhaid iddo beidio â bod yn Aelod Seneddol, yn Aelod o'r Senedd, yn Gynghorydd, yn swyddog yr awdurdod lleol nac yn was sifil.

6.5 Gall y Cyngor argymell diswyddo'r Cadeirydd lle mae tystiolaeth glir o ddiffyg cyfranogiad parhaus, achos o wrthdaro buddiannau heb ei reoli, methiant parhaus i hyrwyddo cynnwys y gymuned, torri'r Cod Ymddygiad yn ddifrifol neu'n aml, neu fethiant i gynnal Egwyddorion Nolan. Mae angen cytundeb yr Aelod Seneddol lleol a chymeradwyaeth MHCLG ar gyfer unrhyw achos o ddiswyddo Cadeirydd.

6.6 Os bydd y Cadeirydd yn ymddiswyddo, cyflwynir cadarnhad ysgrifenedig i MHCLG a chaiff ei gyd-lofnodi gan y Cyngor a'r Aelod Seneddol lleol.

Is-gadeirydd

DRAFT

6.7 Gall y Bwrdd benodi Is-gadeirydd o blith aelodau'r Bwrdd sy'n gynrychiolwyr y gymuned (nid aelod gwleidyddol).

6.8 Rhaid i'r Is-gadeirydd ddatgan a rheoli'n briodol unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig, gan gynnwys lle gallai'r Is-gadeirydd neu sefydliad y mae'n gysylltiedig ag ef elwa ar gyllid Balchder Bro.

6.9 Rhaid penodi'r Is-gadeirydd o blith cynrychiolwyr y gymuned a rhaid iddo beidio â bod yn Aelod Seneddol nac yn Gynghorydd.

6.10 Lle mae rôl wag ar gyfer Is-gadeirydd, gofynnir am enwebiadau gan aelodau'r Bwrdd. Gall aelodau'r Bwrdd enwebu eu hunain. Os bydd mwy nag un ymgeisydd wedi'i enwebu, cynhelir pleidlais yn cynnwys aelodau eraill y Bwrdd, a chaiff pob aelod o'r Bwrdd un bleidlais. Bydd yr enwebai sy'n derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd. Os bydd gan yr enwebeion yr un nifer o bleidleisiau, bydd gan y Cadeirydd y bleidlais fwrw.

Cadeirydd/Is-gadeirydd Dros Dro

6.11 Os bydd angen Cadeirydd Dros Dro, gall y Bwrdd enwebu aelod cymwys o blith ei aelodau presennol. Fel arfer, ddylai penodiad dros dro ddim para mwy na phedwar mis.

Aelodau Wardiau

6.12 Mae'n orfodol i o leiaf un Cynghorydd Ward lleol fod yn aelod o'r Bwrdd Cymdogaeth. Cyfrifoldeb Arweinydd y Cyngor, yn ei Gynllun Dirprwyo, yw penodi Cynghorydd/Cynghorwyr Ward ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Bwrdd.

6.13 Os bydd mwy o Gynghorwyr Ward yn mynegi diddordeb mewn rôl wag na nifer y rolau sydd ar gael, bydd modd gwahodd Cynghorwyr Ward nad ydyn nhw'n aelodau o'r Bwrdd i arsylwi cyfarfodydd.

6.14 Gall Cynghorwyr Ward sy'n aelodau o'r Bwrdd ddarparu diweddariadau priodol i Aelodau Lleol eraill, yn amodol ar ofynion cyfrinachedd y Bwrdd.

Cynrychiolydd Pobl Ifainc

6.15 Os bydd y Bwrdd yn ystyried ei bod yn briodol penodi cynrychiolydd pobl ifainc, gofynnir am fynegiannau o ddiddordeb trwy Fforwm Ieuenctid y Sir, a bydd Panel Penodiadau Bwrdd Cymdogaeth Rhondda Fach yn penodi. Bydd trefniadau diogelu a chymorth priodol yn cael eu rhoi ar waith.

7. Cod Ymddygiad

7.1 Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd Cymdogaeth gydymffurfio â "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" (Egwyddorion Nolan) fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Bwrdd.

DRAFT

7.2 Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd gadarnhau yn ysgrifenedig y bydd yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Bwrdd cyn cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ffurfiol.

7.3 Bydd unrhyw fethiant honedig i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn cael ei ystyried yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 18 o'r Cylch Gorchwyl yma.

8. Cyfnod Rôl

8.1 Yng nghyfarfod cyntaf bob blwyddyn y Cyngor, bydd y Bwrdd yn adolygu ac yn cadarnhau penodiad y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

8.2 Bydd aelodaeth y Bwrdd yn cael ei hadolygu bob blwyddyn i sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i fodloni gofynion y rhaglen ac yn parhau i gynrychioli'r gymdogaeth. Bydd modd adolygu aelodaeth barhaus hefyd lle mae pryderon yn codi ynghylch presenoldeb, cyfranogiad, ymddygiad, gwrthdaro buddiannau neu gydymffurfio â'r Cylch Gorchwyl yma.

8.3 Bydd absenoldeb aelod o'r Bwrdd mewn tri chyfarfod yn olynol heb reswm y cytunwyd arno yn arwain at adolygiad o'i aelodaeth.

8.4 Bydd modd adnewyddu aelodaeth y Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod buddsoddi 4 blynedd cyntaf. Bydd y broses ar gyfer ailbenodi aelodau'r Bwrdd a dewis aelodau newydd o'r Bwrdd yn ôl yr angen, yn cael ei phennu a'i chytuno gan y Bwrdd, a'i harwain gan Banel Penodiadau Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro. Rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau i aelodaeth i MHCLG a bydd aelodau newydd yn destun gwiriadau gwrthdaro buddiannau priodol.

8.5 Bydd aelod o'r Bwrdd yn peidio â bod yn aelod lle: -

- mae'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ymddiswyddo.
- mae'n marw neu dydy'r aelod ddim yn gallu parhau yn y rôl.
- mae'n peidio â dal y rôl neu'r rôl gynrychiadol y cafodd ei benodi i'r Bwrdd o'i herwydd,
- mae ei enw yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr o aelodau yn dilyn proses deg a chymesur o dan y Cylch Gorchwyl yma, neu
- mae ei gyfnod penodi yn dod i ben ac ni chaiff ei ailbenodi.

9. Treuliau a Chydnabyddiaeth Ariannol

9.1 Mae pob rôl ar y Bwrdd yn wirfoddol. Fel eithriad, gall y Cyngor gytuno ar daliad cymharol fach i'r Cadeirydd lle mae hyn yn angenrheidiol i alluogi unigolyn na fyddai fel arall yn gallu cyflawni'r rôl. Rhaid cytuno ar unrhyw daliad gyda'r Cadeirydd, yr Aelod Seneddol lleol a'r Bwrdd, a rhaid rhoi gwybod am y taliad i MHCLG a'i gyhoeddi'n dryloyw.

DRAFT

9.2 Gall aelodau'r Bwrdd hawlio treuliau rhesymol a gafwyd yn angenrheidiol wrth ymgymryd â busnes y Bwrdd, gan gynnwys costau teithio a gofalu lle bo'n briodol, yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan y Cyngor.

10. Cyfarfodydd y Bwrdd Cymdogaeth

10.1 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Cymdogaeth, ac yn cynorthwyo i gydlynu cyfarfodydd y Bwrdd a lleoliadau.

10.2 Os sefydlir unrhyw weithgorau neu is-grwpiau llai o'r Bwrdd dros amser, bydd y rhain fel arfer yn cael eu cydlynu a'u hwyluso gan y Bwrdd.

10.3 Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall y Cadeirydd drefnu cyfarfodydd ychwanegol lle bo angen hynny'n rhesymol ar gyfer gwneud penderfyniadau neu gyflawni'r rhaglen yn amserol, yn amodol ar argaeledd cymorth ysgrifenyddol.

10.4 Lle bo modd, cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Rhondda Fach.

10.5 Fydd cyfarfodydd y Bwrdd ddim yn para mwy na thair awr.

10.6 Gall cyfarfodydd ddigwydd ar-lein gan ddefnyddio MS Teams neu Zoom, gyda chytundeb y Cadeirydd.

10.7 Dydy'r Bwrdd ddim yn bwyllgor nac yn is-bwyllgor y Cyngor a fydd ei gyfarfodydd ddim fel arfer ar agor i'r cyhoedd oni bai bod y Bwrdd yn penderfynu fel arall. Bydd y Bwrdd yn gweithredu'n dryloyw trwy gyhoeddi agendâu, adroddiadau cyhoeddus, cofnodion a phenderfyniadau. Dim ond lle mae sail gyfreithiol, masnachol, ariannol, data personol neu sail lywodraethu briodol arall y bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Cyhoeddir cynllun ymlaen llaw o ddyddiadau cyfarfodydd ar dudalen we'r Bwrdd.

<u>Agendâu a Chofnodion Cyfarfodydd</u>

10.8 Bydd y Cadeirydd yn pennu'r agenda, gan ystyried rhaglen waith y Bwrdd, blaenoriaeth a brys yr eitemau arfaethedig a'r amser sydd ei angen ar gyfer trafodaeth effeithiol.

10.9 Cyhoeddir gwybodaeth gan ddilyn cyngor gan yr ysgrifenyddiaeth ac yn unol â threfniadau llywodraethu a thrin gwybodaeth perthnasol y Cyngor.

DRAFT

10.11 Cyhoeddir agendâu a phapurau cyhoeddus ar wefan y Cyngor 5 diwrnod clir cyn cyfarfod o'r Bwrdd, a chaiff y pecyn agenda ar ffurf PDF ei anfon drwy e-bost at holl aelodau'r Bwrdd.

10.12 Gall papurau a gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol neu'n gyfrinachol gael eu heithrio rhag cael eu cyhoeddi yn unol â threfniadau llywodraethu a chyllid y Cyngor. Bydd cofnodion yn darparu cofnod digonol a chymesur o'r materion a drafodwyd, y penderfyniadau a gafodd eu gwneud, y rhesymau dros benderfyniadau ac unrhyw fuddiannau a ddatganwyd. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi'r cofnodion i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.

10.13 Er mwyn sicrhau tryloywder a darparu trywydd archwilio clir, bydd copïau o gofnodion a chamau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau a nodwyd, hefyd ar gael ar dudalen we'r Bwrdd ar wefan y Cyngor.

10.14 Cyhoeddir cofnodion drafft cyfarfodydd y Bwrdd o fewn 10 diwrnod gwaith clir i gyfarfod, a chyhoeddir cofnodion cymeradwy cyfarfodydd y Bwrdd o fewn 10 diwrnod gwaith clir i'w cymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

11. Gwasanaethau Cymraeg

11.1 Bydd yr holl agendâu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

11.2 Bydd unrhyw adroddiadau, dogfennau ategol a chofnodion ar gael yn Saesneg yn unig.

11.3 Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ar yr amod bod angen y cyfleuster ar o leiaf 10% o'i aelodau.

11.4 Rhaid cynnig pob cyfathrebiad swyddogol (y wasg, datganiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol) yn ddwyieithog (yn ddelfrydol, cefn wrth gefn o ran taflenni) a rhaid i'r Cadeirydd gytuno ar hynny ar ôl ymgynghori â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

12. Cworwm

12.1 Does dim modd gwneud unrhyw benderfyniad ffurfiol oni bai bod cworwm yn y cyfarfod.

12.2 Er mwyn sicrhau cworwm, rhaid i o leiaf bump o aelodau pleidleisio fod yn bresennol, gan gynnwys Cadeirydd annibynnol neu Is-gadeirydd annibynnol ar gyfer y cyfarfod.

12.3 Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn monitro bod y Bwrdd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyniad bod o leiaf 51% o'i aelodau'n byw neu'n gweithio o fewn ffin y gymdogaeth y cytunwyd arni.

DRAFT

13. Datgan Buddiant

13.1 Rhaid i bob Aelod o'r Bwrdd gwblhau datganiad o fuddiannau ariannol ac anariannol wrth eu penodi, a rhaid cadw'r datganiad hwnnw'n gyfredol. Bydd y Cyngor yn cynnal cofrestr o fuddiannau ac anrhegion a lletygarwch. Cyhoeddir gwybodaeth briodol lle bo angen i ategu tryloywder ac atebolrwydd, yn amodol ar ofynion diogelu data ac unrhyw ystyriaethau gwybodaeth sensitif.

13.2 Pan fydd achos o wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig yn codi mewn perthynas ag eitem ar yr agenda, rhaid i'r aelod o'r Bwrdd roi gwybod i'r Cadeirydd a'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw neu cyn gynted ag y daw'r buddiant i'r amlwg.

13.3 Bydd y Cadeirydd, gyda chefnogaeth yr ysgrifenyddiaeth a chyngor swyddogion priodol lle bo angen, yn pennu'r trefniadau cymesur ar gyfer rheoli'r buddiant. Lle gallai'r buddiant godi amheuaeth resymol ar ddidueddrwydd yr aelod, ddylai'r aelod ddim cymryd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad a dylai dynnu'n ôl ar gyfer yr eitem honno.

13.4 Gellir caniatáu i aelod aros i ddarparu gwybodaeth ffeithiol berthnasol yn unig cyn tynnu'n ôl o'r drafodaeth a'r penderfyniad. Bydd y buddiant a'r camau a gymerwyd yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

14 Pleidleisio

14.1 Bydd mwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n bresennol sydd â hawl i bleidleisio yn penderfynu ar bob mater.

14.2 Os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan y Cadeirydd, neu'r Is-gadeirydd wrth lywyddu, bleidlais fwrw.

15. Is-grwpiau a Gweithgorau

15.1 Gall y Bwrdd sefydlu is-grŵp neu weithgor at ddiben penodol a bydd yn cytuno ar ei aelodaeth, ei gylch gwaith, ei hyd ac unrhyw awdurdod dirprwyedig.

15.2 Oni bai bod y Bwrdd wedi awdurdodi'n benodol, gall is-grŵp neu weithgor ddatblygu cynigion a gwneud argymhellion ond fydd dim modd iddo ymrwymo gwariant na gwneud penderfyniadau ar ran y Bwrdd, a fydd dim modd iddo arfer unrhyw swyddogaeth nac ymrwymo unrhyw wariant sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y Cyngor.

15.3 Bydd pob is-grŵp neu weithgor yn adrodd ar ei weithgareddau a'i argymhellion i'r Bwrdd.

DRAFT

16 Penderfyniadau Brys

16.1 Lle nad yw penderfyniad brys yn gallu aros yn rhesymol tan y cyfarfod nesaf a does dim modd trefnu cyfarfod ychwanegol â chworwm, gall y Cadeirydd, ar ôl ymgynghori â'r Cyngor, awdurdodi defnydd gweithdrefn penderfyniad ysgrifenedig.

16.2 Bydd y penderfyniad arfaethedig, y rhesymau dros y brys ac unrhyw gyngor perthnasol gan swyddogion yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Bwrdd sy'n pleidleisio.

16.3 Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r nifer fwyaf o bleidleisiau, ar yr amod bod ymateb yn dod i law gan y cworwm arferol o fewn y cyfnod sydd wedi'i nodi.

16.4 Fydd y weithdrefn penderfyniad ysgrifenedig ddim yn cael ei defnyddio ar gyfer mabwysiadu na diwygio'r Cynllun Balchder Bro yn sylweddol, penodi na diswyddo'r Cadeirydd, nac unrhyw fater y dylid ei drafod mewn cyfarfod yn ôl y Cyngor.

16.5 Bydd y penderfyniad yn cael ei nodi yn y cofnod penderfyniadau, yn cael ei gyhoeddi yn amodol ar ofynion cyfrinachedd cyfreithlon ac yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf.

17 Gwefan

17.1 Cyhoeddir enw, rôl y Bwrdd a phroffil sylfaenol priodol pob aelod o'r Bwrdd ar dudalen we Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro i gefnogi tryloywder a gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd hygyrch. Bydd cyhoeddi llun aelod yn ddewisol ac yn seiliedig ar ganiatâd yr aelod.

17.2 Bydd proffiliau cyhoeddedig dim ond yn cynnwys gwybodaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi tryloywder ac atebolrwydd, a byddan nhw'n cael eu trin yn unol â deddfwriaeth diogelu data a pholisïau preifatrwydd a chadw'r Corff Atebol.

18 Protocol Cyfathrebu a'r Wasg

18.1 Dylid cyfeirio ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau at y Cadeirydd a'r Cyngor cyn i aelodau unigol o'r Bwrdd wneud unrhyw ddatganiad.

18.2 Dylai pob aelod o'r Bwrdd weithredu'n hyrwyddwr y Bwrdd a'r rhaglen ac ymddwyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Cod Ymddygiad.

DRAFT

18.3 Does dim byd yn yr adran yma yn atal aelod o'r Bwrdd rhag mynegi barn bersonol neu gynrychioli ei gymuned, ar yr amod ei fod yn egluro pryd nad yw'n siarad ar ran y Bwrdd ac yn cydymffurfio â gofynion cyfrinachedd perthnasol.

18.4 Rhaid i bob cyfathrebiad, cyhoeddiad, deunydd cyhoeddusrwydd a chynnwys digidol sy'n ymwneud â'r Rhaglen gydymffurfio â gofynion y Llywodraeth o ran brandio a chydnabod y grant, gan gynnwys defnyddio logos a geiriad cymeradwy, fel y nodir yn amodau'r grant ac unrhyw ganllawiau dilynol. Bydd y Corff Atebol yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r gofynion yma.

18.5 Bydd gan y Bwrdd rôl wrth lywio a chytuno ar y dull strategol tuag at gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y Rhaglen, gan gynnwys negeseuon allweddol, cynulleidfaoedd a blaenoriaethau. Bydd y Corff Atebol yn cefnogi gwaith cyflawni'r cynllun cyfathrebu lle mae adnoddau'n caniatáu a bydd yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau cyfathrebu corfforaethol, trefniadau rheoli risg a gofynion statudol.

19 Cwynion a Methu â Chydymffurfio

19.1 Bydd cwynion ynghylch gweinyddiaeth neu weithgareddau'r Bwrdd yn cael eu rheoli gan y Cyngor fel y Corff Atebol o dan ei weithdrefn gwynion.

19.2 Dylid cyflwyno unrhyw bryder bod aelod o'r Bwrdd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad neu'r Cylch Gorchwyl yma i ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

19.3 Bydd yr aelod yn cael gwybod am y pryder a rhoddir cyfle rhesymol iddo ymateb.

19.4 Bydd y pryder yn cael ei ystyried gan y Cadeirydd, gyda chefnogaeth person diduedd a benodir gan y Cyngor. Pan fo'r pryder yn ymwneud â'r Cadeirydd, caiff ei ystyried gan berson diduedd a benodir gan y Cyngor, gan ymgynghori â'r Aelod Seneddol lleol lle bo'n briodol. Gall y Swyddog Monitro roi cyngor lle mae'r mater yn ymwneud â llywodraethu, uniondeb neu wrthdaro buddiannau.

19.5 Bydd unrhyw gam gweithredu yn deg ac yn gymesur a gall gynnwys dim camau gweithredu pellach, cyngor, ymddiheuriad, hyfforddiant, rhybudd, diswyddo o rôl neu weithgor penodol, neu, mewn achosion difrifol neu aml, diswyddo'r aelod o'r Bwrdd.

DRAFT

19.6 Gall y Cyngor ddiswyddo aelod o'r Bwrdd, heblaw'r Cadeirydd, fel y Corff Atebol ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd. Bydd yr aelod yn cael gwybod am y cynnig i'w ddiswyddo, yn cael cyfle i wneud sylwadau ac yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y canlyniad a'r rhesymau.

19.7 Bydd achos o ddiswyddo'r Cadeirydd yn cael ei drin yn unol â pharagraff 6.5.

20. Adolygu'r Cylch Gorchwyl

20.1 Mae modd adolygu'r cylch gorchwyl yma ar unrhyw adeg ac mae modd i'r Bwrdd ei ddiwygio gyda chytundeb y Cyngor fel y Corff Atebol. Ymgynghorir â'r Aelod Seneddol lleol ynghylch unrhyw ddiwygiad perthnasol sy'n effeithio ar aelodaeth y Bwrdd, rôl y Cadeirydd neu brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch y rhaglen. Rhaid i unrhyw ddiwygiad fod yn gyson â chanllawiau MHCLG ac amodau ariannu perthnasol.

DRAFT